## Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Chwefror 2006 i'w hateb ar 27 Chwefror 2007

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

### *Gofyn i Brif Weinidog Cymru*

**1. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd y mae yn ei wneud tuag at wireddu targedau allweddol Llywodraeth y Cynulliad. OAQ2358 (FM)

**2. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynnal gyda'r Adran Masnach a Diwydiant ynghylch y gwasanaethau a ddarperir gan Cyswllt Defnyddwyr yng Nghymru. OAQ2354(FM)

**3. Alun Ffred Jones (Caernarfon):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau i gynyddu cyflogaeth yn ardal Porthmadog. OAQ2346(FM) **W**

**4. Val Lloyd (Dwyrain Abertawe):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar adfywio Abertawe. OAQ2353(FM)

**5. Kirsty Williams** (Brycheiniog a Sir Faesyfed): Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cynnal gyda Llywodraeth y DU ynghylch diwygio'r system drethiant i annog ymddygiad eco-gyfeillgar. OAQ2361(FM)

**6. Ann Jones (Vale of Clwyd):** Pa effaith y mae polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cael ar dwf economaidd yng Nghymru er 1999. OAQ2365(FM)

**7. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** Beth mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod mwy o adeiladau cyhoeddus yn diwallu rhan o'u gofynion ynni drwy gynhyrchu eu hynni adnewyddadwy eu hunain. OAQ2364(FM)

**8. Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gwella mynediad at wasanaethau iechyd. OAQ2348(FM)

**9. Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi pobl hunangyflogedig mewn cymunedau gwledig. OAQ2337(FM)

**10. Lynne Neagle (Tor-faen):** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi eu cael gyda'r Swyddfa Gartref ynghylch adeiladu carchar newydd yng Nghymru. OAQ2368(FM)

**11. Irene James (Islwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gwella bywydau pobl hyn yng Nghymru. OAQ2367(FM)

**12. Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cynnal ynghylch trosglwyddo'r stoc dai. OAQ2342(FM)

**13. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i atal troseddau yng Nghasnewydd. OAQ2343(FM)

**14. Janet Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effeithiolrwydd polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran diwallu ei thargedau ar gyfer datblygu economaidd. OAQ2349(FM)

**15. Jonathan Morgan (Canol De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gynyddu nifer y lleoedd mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yng Nghymru. OAQ2355(FM)